

Ers iddo siarad yn gyhoeddus ar y mater hwn, mae Simon Glyn wedi derbyn llythrau o gefnogaeth o sawl man, yn cynnwys un llythyr gan drigolion pentref Llanuwchllyn a nifer o lythrau gan unigolion o Gyfoedd y De. Ond beth ydy barn pobol Llyn a'r cylch tybed? Bu gohebydd y 'Llanw' yn holi chwech o bobol ar hap, a dyma oedd ganddynt i'w ddweud:

Ydw, dw i'n poeni am y sefyllfa. Mae 'na lawar o bobol o'r tu allan yn symud yma i fyw ar ôl cael tŷ cyngor yn yr ardal a wedyn, ar ôl dwad yma, maen nhw'n gweld tai er'ill ar werth ac yn prynu'r rheini. A dim jest un cwpwl a'u plant sy'n dwad ar y tro chwaith, ond teulu cyfan: y brodyr a'r chwiorydd, y modragedd a'r 'neiniau, ac unwaith y maen nhw wedi dwad, mae plant Cymraeg yn mynd i siarad Saesneg efo'r plant ac wedyn maen nhw'n mynd i gast o siarad Saesneg efo'i gilydd. Dw i'n meddwl bod y sefyllfa mor ddirifol fel y dylai'r Cyngor wneud unrhyw beth y medran nhw i helpu cadw pobol Gymraeg yn yr ardal - ee rhoi grantiau i deuluoedd ifainc lleol i brynu tai. Yn Ardal y Llynnoedd, maen nhw'n cyfyngu ar y nifar o dai y medar pobol o'r tu allan eu prynu. Pam na fedrwn ni wneud hynny yng Nghymru? Dw i'n cefnogi Simon Glyn. Mae'r hyn wnaeth o wedi dwad i'r peth i'r wynab.

Ann Derec James, Llangybi

Oes, mae 'na broblem: mae hynny i'w weld yn blaen. Maen nhw'n prynu llefydd ym mhob man o dan ein trwynau ni. Wrthgwrs, mae hi'n broblem drwy'r wlad i gyd ac yn Lloegr hefyd. Mae'n anodd gwobod beth ydy'r atab ond, yn sicir, mi fyddai'n help cael deddfau i reoli'r sefyllfa a rhoi grantiau i bobol leol i'w helpu nhw i brynu tai. Dw i'n siwr y medrai'r Cyngor wneud mwy nag y maen nhw i wella'r sefyllfa. Mae pethau'n udrach yn hyll iawn ar yr iaith Gymraeg ar y foment: does arna i ddim isio codi stwr na dim byd ond un peth dw i yn teimlo'n gryf yn 'i gylch ydy 'mod i isio gweld yr iaith yn byw: sgynton ni ddim llawar o ddim byd ar ôl ond yr iaith, yn nag oes? Mi ddoth sylwadau Simon Glyn allan o'r cwd mwya' sydyn yn do, ond roedd lot o be' ddudodd o'n berffaith wir. Ella y gneith o lot o les. Gobeithio'n wir y gneith o.

R.E.Thomas, Nanhoron

Peth politicaidd ydy'r stwr yma sydd wedi codi ynglŷn â beth mae Simon Glyn wedi'i ddeud: mae 'na wahaniaeth rhwng bod yn wladgarol a bod yn hiliol. Mae'r Blaid Lafur a'r Toriaid wedi neidio amo fo ac wedi trio'i neud o'n rwbath gwrth-Seisnig at eu dibenion nhw'u hunain. Wrth gwrs, mae yna etholiad ar y gorwel! Mae'r un broblem yn union yn bod mewn llefydd fel Cemyw ac Ardal y Llynnoedd, ond mae yna un ffactor ychwanegol yng Nghymru, sef yr iaith. Ymamae'r ffaith bod cymaint o bobol o'r tu allan yn symud i mewn yn golygu nid yn unig bod prisiau'r tai yn mynd allan o gyrraedd pobol leol ond bod yr iaith Gymraeg mewn peryg. Dw i'n cytuno bod isio gneud rwbath ynglŷn â'r peth, ond mae hynny ifyny i'r cynghorau, y llywodraeth leol a'r Cynulliad, nid i unigolion. Mae'n rhaid iddyn nhw ystyried y broblem wrth roi caniatâd cynllunio. Mi fyddai'n well gin i, fel adeiladwr, gael gweithio ar 10 o dai i bobol leol nag ar 5 o dai drutach a chrandiach i bobol o'r tu allan. Mae lot o fai ar y cynghorau am y sefyllfa sydd ohoni.

Alan Williams, Efailnewydd

Mae'n hollol wir bod prisiau tai yn uchaf iawn yn yr ardal yma, a'u bod nhw allan o gyrraedd pobol leol. Pan mae gynnoch chi blant, ac isio iddyn nhw fedru aros yn yr ardal a medru fforddio tŷ yma, mae hyn yn rwbath sydd y tu ôl i feddwl rhywun o hyd. Mi ddylai'r cyngor helpu pobol leol i brynu tai mae'n rhaid iddyn nhw os ydyn nhw isio cadw pobol ifainc yn yr ardal - a dim tai o ddewis y cyngor chwaith, ond tai o ddewis y bobol eu hunain. Ynglŷn â'r iaith Gymraeg: dw i ddim yn poeni amdani hi ar hyn o bryd achos mae hi'n dal i'w gweld yn reit gryf ac mae'r ysgolion yn gwneud gwaith da i'w chadw hi. Ond oni bai bod camau'n cael eu cymryd i helpu pobol ifainc i aros mewn ardaloedd fel Llyn, fydd yna ddim dyfodol iddi hi.

Valerie W. Jones, Llanbedrog



"Yr wyf yn sefyll yn gadarn dros y ffaith fod ein cymunedau Cymreig dan fygythiad difrifol a bod rhaid gweithredu rwan trwy ofyn am ddeddfwriaeth i warchod ein hiaith a'n diwylliant. Does dim angen ymddiheuro am ddweud hyn."

Simon Glyn

Mae'n bwysig bod y Cymry yn y mwyafrif mewn lle fel Llyn os ydy Cymreictod yr ardal am gael ei warchod. Os ydy'r mwyafrif o'r bobol mewn pentra yn Saeson, hyd yn oed os ydyn nhw'n gefnogoli'r iaith ac i bethau Cymraeg, dydyn nhw ddim yn mynd i frwydro drostyn nhw yn yr un modd. Ac mae'n beryg y byddan nhw'n dechrau dadlau nad oes raid gneud popeth yn Gymraeg gan fod pawb yn deall Saesneg. Fedra'i ddim deud 'mod i wedi sylwi bod y mwyafrif o'r bobol sy'n byw yma ar hyn o bryd yn Saeson: dw i'n mynd at fwy o Gymry na Saeson yn fy ngwaith fel nyrs ardal, a dw i'n temlo bod lle fel Aberdaron yn dal yn Gymreig iawn o hyd. Ynglŷn â Simon Glyn: dw i ddim yn meddwl bod yr hyn ddudodd o yn hiliol. Mae llefydd er'ill yn gneud amod mai hyn a hyn o bobol o'r tu allan sy'n cael prynu tai a does neb yn deud 'u bod nhw'n hiliol. Pam deud 'i fod o'n beth hiliol jest pan mae rhywun yn awgrymu y dylai gael 'i wneud yng Nghymru?

Edith Evans, Aberdaron

Ydw, dw i'n poeni am beth sy'n digwydd mewn ardaloedd fel Llyn ar hyn o bryd. O weld sut mae'r ardal yma wedi newid, mae'n amlwg bod isio i rwbath gael 'i neud ar fyrdar. Mi ddylai pobol leol gael mwy o help i brynu tai yn lleol. Mi faswn i'n licio aros yn Llyn a set 10 yma ar ôl gorffan yn y coleg, ond y ffordd y mae prisiau tai yn mynd ar hyn o bryd mae'n ddiagonal i bobol ifainc. Mae'r sefyllfa wedi mynd mor bell fel bod yn rhaid i rywun wneud rwbath neu fydd yna ddim cymdeithas Gymraeg ar ôl. Dw i'n cytuno efo Simon Glyn; chwarae teg iddo fo am ddeud ffeithiau nad oedd neb isio'u deud yn gyhoeddus. Roedd angen i rywun siarad allan. Mae'n anodd i Saeson ddeall ein sefyllfa ni achos maen nhw'n genedl heb broblem. Dydy'r iaith Saesneg ddim mewn peryg: mae hi'n iaith nid yn unig Lloegr ond America ac Awstralia. Dw i'n credu bod 'na ddyfodol i'r iaith Gymraeg hefyd - ond i ni udrach ar 'i hól hi.

Janet Owen, Llangian

Beth ydy'ch barn chi? Anfonwch air atom i ddweud.

SPICK 'N' SPAN SERVICES
Proprietor: Alun Eagles

Yr Aelwyd
Chwilog
Gwynedd
LL53 6SH

Phone: 01756 810563
Mobile: 07881 922938

**WNAIFF FFUGENW
MO'R TRO.**

**CANEUON TRO TRWSTAN,
CANEUON TYNNU COES,** etc.
Rhaid cynnwys enw'r awdur o dan y gan yn y papur. Bellach nid ydym yn fodlon cyhoed& caneuon efo ffugenwau.

**Gwneuthurwraig Dillad
Cywiro Dillad
Dodrefnu Ysgafn**

Anwen Davies

Plasngheidio, Boduan, Pwllheli
Gwynedd LL53 8YL
Ffôn: 01758 720327

Cofiwch am y dyddiad cau

A fyddai'r colofnwyr mor garedig â gyrru'r eitemau i'r golygyddion oibyn y cyntaf o'r mis fan bellaf. Nid oes sicrhwydd y gellir cynnwys eitemau hwy.